CADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Y Parch. Ddr. Andras Iago
Ffôn- 07778511672 *Ebost-* andrasiago@outlook.com
MEHEFIN 2019 *Rhif 094*

Ar ôl ychydig ddyddiau sych mae ambell blanhigyn yn yr ardd yn dechrau edrych yn sychedig. Tydi'r tatws ddim yn sefyll cweit mor syth ag oedden nhw rai dyddiau yn ôl, ac ambell i ddeilen ddim cweit mor llachar wyrdd. Amser dyfrio felly – a diod go dda, i bara tan y gawod nesaf gobeithio.

Peidiwch â phoeni - nid rhifyn arbennig am arddio ydi hwn!

Ar ail Sul y mis byddwn ni'n dathlu'r Sulgwyn – pan ddaeth yr Ysbryd Glân ar ddisgyblion Iesu wedi iddo fynd yn ôl i'r nefoedd. Dyma'r Ysbryd oedd Iesu wedi ei addo i'w ddisgyblion – nid rhyw deimlad, ond person fyddai'n dod i ganol eu bywydau ac yn llywio nhw mewn cymaint o ffyrdd. Byddai'n rhoi nerth a hyder iddyn nhw yn eu tystiolaeth (sylwch ar bregeth Pedr ar ddydd y Pentecost); byddai'n eu cysuro nhw ac yn gwmni sy'n aros gyda nhw; byddai'n gwneud nhw'n debycach i Dduw. Nid rhywbeth i ambell broffwyd neu sant oedd hyn – 'tywalltaf o'm Hysbryd ar bawb'. Mae'r Ysbryd Glân yn nerthu ac yn gwmni i bob un sy'n ymddiried yn Iesu.

Mae yna emyn Gymraeg sy'n sôn am yr Ysbryd Glân fel un sy'n 'dyfrhau'. Y darlun yw hyn – fod effaith yr Ysbryd fel dŵr ar ddiwrnod poeth, yn torri syched, ac yn dod â grym a hyder newydd. Gobeithio cawn gyfle dros y mis nesa i feddwl am yr Ysbryd Glân wrth i ni gwrdd – ac wrth wneud hynny, gweddïo y bydd Duw yn rhoi ei Ysbryd byw i fod ar waith wrth i ni gyd-addoli.

Ga i eich annog chi i droi at dudalennau olaf *Cadwyn Bro* am y mis hwn ac erthygl gan yr Athro Mari Lloyd-Williams am Waengoleugoed – lle arloesol sy'n gwneud gwaith sy'n haeddu pob cefnogaeth.

DIGWYDDIADUR

OEDFA'R FRO yng Capel y Pentre, Mehefin 2il am 10 y.b.
Gwasanaeth yng nghwmni Dr. Owain Edwards o Goleg y Bala.
Croeso cynnes i bawb o bob oed!

ASTUDIAETH FEIBLAIDD
Festri Capel Trefnant am 1.30 y.p. ar y 12fed a'r 26ain o Fehefin.
Croeso cynnes i bawb!

CYLCH CINIO'R OFALAETH
Cynhelir y Cinio nesaf Dydd Gwener, Mehefin 14eg yn Festri'r Capel Mawr am 12.00. Mi fydd y cinio yma yn un ysgafn ar ddull "Bwffe" ar pris yn £7. Croeso i bawb ymuno.

CLWB IEUENCTID ar y 7fed a'r 21ain o Fehefin, 7-8.30 y.h. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Andras.

NOSON BLASU AGOR Y LLYFR, 5ed o Fehefin, Capel y Pentre, 7 y.h.
Oes gennych chi ddiddordeb mewn helpu gyda gwaith tîmoedd 'Agor y Llyfr' yn y Fro? Ar hyn o bryd rydym yn mynd i mewn i dair ysgol – Pantpastynog, Tremeirchion, a Twm o'r Nant yn rheolaidd. Mae'n lot o hwyl ac yn gyfle gwych i rannu straeon o'r Beibl – ac mae bob amser croeso i fwy o bobl i ddod yn rhan o'r tîm!

NEUADD TREFNANT, Sadwrn Mehefin 8fed am 2 y.p.
Te Mefus, arddangosfa celf ag arlunio.
Dyfrliw gan Amanda Drinkwater Prestatyn, stondinau cacen, cardiau, gwaith coed a raffl.
Tocyn lwcus wrth y drws £3, elw at ymchwil cancr Cymru. Dewch i gefnogi!

Ffarwelio â Nesta

Daeth cyfnod llewyrchus y Parch. Nesta Davies, ein Cynorthwyydd Gweinidogaethol, i ben ddiwedd mis Mai, a chynhaliwyd cyfarfod ffurfiol yn Y Capel Mawr ar nos Fawrth Mai 14eg fel y gallai'r Fro gyfan ffarwelio â hi.

Diolchwyd iddi am ei gwaith diflino gan Y Parch. Nan Powell Davies, ei rheolwr llinell, a chymerwyd y rhannau defosiynol gan Mr Dilwyn Jones, Mrs Bet Roberts, Mrs Dilys Hughes, Mrs Carys Williams a Mrs Nerys Ann Roberts.

Darllenwyd y datganiad yn ei rhyddhau yn ffurfiol o'i dyletswyddau gan Y Parch. Nan Powell Davies.

Yn ei ffordd unigryw drwy gyfrwng lluniau a phenillion ysgafn, rhoddodd Nesta gipolwg inni ar yr hyn a gyflawnwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Mynegodd hefyd y pleser a roddodd y gwaith iddi.

Llywiwyd y gwasanaeth gan y Gweinidog, a Mrs Catrin Warren oedd wrth yr organ.

Ar derfyn yr oedfa roedd lluniaeth ysgafn yn y festri, a chyfle i bawb flasu cacen arbennig a baratowyd ar gyfer yr achlysur.

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Mehefin 2il
10.00 – Oedfa'r Fro yn Capel y Pentre, Llanrhaeadr.
Dydd Sul, Mehefin 9fed
2.00 – Parch Andras Iago
Dydd Llun, Mehefin 10fed
Cinio Cynnil yn y Festri o 12.00 – 1.00
Croeso cynnes i bawb
Dydd Sul, Mehefin 16eg
10.00 - Mr Dewi Williams, Llannefydd
Dydd Sul, Mehefin 30ain
9.45 – Parch Andras Iago
Rydym yn meddwl am Dei Griffiths sydd bellach wedi symud o Dolwen i Plas Eleri ac yn anfon ein dymuniadau gorau iddo.

CAPEL BRWCWS

Dydd Sul, Mehefin 2ail
Oedfa'r Fro - Capel y Pentre am 10.00
Dydd Sul, Mehefin 9ed
Ysgol Sul am 10.00
Miss Debbie Roberts am 2.00
Dydd Sul, Mehefin 16eg
Ysgol Sul am 10.00
Oedfa Gymun - Parch. Andras Iago am 2.00
Dydd Sul, Mehefin 23ain
Ysgol Sul am 10.00
Y Parch. W H Pritchard am 2.00
Dydd Sul, Mehefin 30ain
Ysgol Sul am 10.00
Y Parch. Anna Jane Evans am 2.00

Nos Fercher, Mehefin 12ed
Ymweliad Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws a Phont y Twr, Llanbedr ac yna swper yn y Ceffyl Gwyn, Llandyrnog.

CYDYMDEIMLAD - Cydymdeimlwn a Mrs Gwenda Jones yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer Mrs Glenys Smith, Prestatyn.

DIOLCH Mae ein diolch yn fawr i'r Parch. Nesta Davies am ei gofal trosom fel Eglwys yn ei gwaith fel cynorthwydd gweinidogaethol. Ein dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol.

YSGOL SUL - Nos Wener, Mai 10ed yng Nghapel Trefnant cyflwynwyd tystysgrifau i'r plant am eu cywaith "Myfi yw'r Goleuni". 'Roedd y gwaith wedi canolbwyntio ar y darlun gan William Holman Hunt "Goleuni'r Byd". Llongyfarchiadau i Arthur, Flora a Henry Jones, Mari a Beca Edwards, Cari a George Cattell, Cadi Roberts, Cai, Rhys a Mared Jones a Magi a Gwen Davies.

CAPEL Y DYFFRYN

Dydd Sul, Mehefin 2ail am 10 yb
Oedfa'r Fro - Capel y Pentre, Llanrhaeadr.
Dydd Sul, Mehefin 9fed am 9.45yb
Trefniant Lleol
I gynorthwyo - Rod
Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Organ - Ann
Blodau - Margaret Williams
Dydd Sul, Mehefin 16eg am 9.45 yb
Mr Bob Morris
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Emyn a Darllen - Gwennan/Sion
Emyn a Darllen Plant - Mati Nel
Organ - Iona
Blodau - Gwennan
Dydd Sul Mehefin 23ain am 11 yb
Parch Andras Iago
Gwasanaeth a Cymun ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30 yb
Emyn a Darllen - Aled
Emyn a Darllen Plant - Llion/Osian
Organ - Alaw
Blodau - Ann
Dydd Sul, Mehefin 30ain am 9.45 yb
Trefniant Lleol
I gynorthwyo - John Hugh
Adran Plant - Ysgubor Wen
Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15yb
Organ - Anwen
Blodau - Margaret Evans

GELLIFOR

Dydd Sul, Mehefin 2il
10.00 – Oedfa'r Fro – Capel y Pentre, Llanrhaeadr
Dydd Sul, Mehefin 9fed
9.45 - Trefniant Ni
Llywydd – Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – Wykes
Offeryn – Margaret
Blodau - Glen
Dydd Sul, Mehefin 16eg
11.00 – Mr Bob Morus
Llywydd – Glen
Gwasanaeth Dechreuol – Bryn Bedw
Offeryn Richard
Blodau – Glen
Dydd Sadwrn , Mehefin 22ain
Tŷ yn yr Ardd, Plas yn Llan
Dydd Sul, Mehefin 23ain
9.45 – Gweinidog
Llywydd - Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Elaine
Offeryn – Alaw
Blodau - Edwina
Dydd Sul, Mehefin 30ain
11.00 – Mrs Mair Penri
Llywydd – Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – Hafodty
Offeryn – Nia
Blodau - Edwina

Y FRON

Llywydd y mis – Mrs Wendy Lloyd Jones
Dydd Sul, Mehefin 2ail
10.00 – Gwasanaeth Bro – Pentre Llanrhaeadr
Dydd Sul, Mehefin 9fed
10.00 – Capel Mawr – Miss Debbie Roberts
5.30 – Fron – Cyfarfod Gweddi
Dydd Sul, Mehefin 16eg
11.00 – Fron – Bugail oedfa Gymun
5.30 – Capel Mawr - Bugail
Dydd Sul, Mehefin 23ain
10.00 – Capel Mawr – Parch W. H. Pritchard
5.30 - Fron Parch W. H. Pritchard
Dydd Sul, Mehefin 30ain
10.00 – Fron – Mrs Enid Davies
5.30m- Capel Mawr – Parch Anna Jane Evans
Casglyddion – Mr Aelwyn Lloyd a Mr John Geraint Jones
Organyddion – Iona Edwards, Eiri Jones a Megan Williams
Croeshawu:
9fed – John Geraint Jones
16eg – John Howatson
23ain – Dilys Davies
30ain – Carys Jones

Rhoddwyr y Blodau -
9fed – Eleri Jones
16eg – Helena Morris
23ain – June Howatson
30ain – Dilys Davies
Paratoi Llestri'r Cymun – Megan Williams a Dilys Davies

Diolch i'r criw chwiorydd sydd yn cyfarfod ar prynhawn lau, ac mi fydd y gwaith yn cael ei ddosbarthu i wahanol ganolfanau yn fuan. Hefyd diolch am cyfraniadau y chwiorydd at waith y Genhadaeth.
Gair bach o ddiolch i'r Parch Nesta Davies am ei gwaith gyda ni fel Cynorthwydd -ydd Gweinidogaethol am bron i chwe blwyddyn. Yr oedd bob amser yn barod i helpu mewn unrhyw fodd. Yn ymweld a'r cleifion, teuluoedd mewn profedigaeth ac aelodau sydd mewn cartrefi gofal. Bob Bendith i chi Nesta, a diolch am eich cyfeillgarwch a'ch hynawsedd atom a peidiwch cadw yn ddieithr.
Dymuniadau am wellhad i Margaret McCall sydd wedi treilio amser yn Ysbyty Glan Clwyd ond yn awr yn Ysbyty Rhuthun ac hefyd y mae Beti Jones wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Yr ydym yn cydymdeimlo a Alwena Jones sydd wedi colli perthynas agos, ac hefyd mae Tom Prytherch wedi colli ei frawd yn Ne Affrica.

Cymdeithas y Chwiorydd Fron a'r Brwcws
Mi fydd y Chwiorydd yn ymweld a Pont y Tŵr nos Fercher Mehefin 12fed ac yn galw yn y Ceffyl Gwyn Llandyrnog am swper ysgafn.

Y CAPEL MAWR A SEION

DALIER SYLW

****Cofiwch pan fo'r Gweinidog gyda ni yn y bore - yn Y Capel Mawr neu'r Fron - bydd yr oedfa am 11am.**

Dydd Sul, Mehefin 2

10am – Y Capel Mawr – Oedfa'r Fro yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr

Dydd Sul, Mehefin 9

10am – Y Capel Mawr – Miss Debbie Roberts

5.30pm – Y Fron – Cyfarfod Gweddi

Dydd Llun, Mai 13

Cyfarfod Gweddi – 1.30pm

Dydd Sul, Mehefin 16

***11am** – Y Fron -Y Bugail. Gweinyddir Cymun yn yr oedfa hon.

5.30pm – Y Bugail

Dydd Sul, Mehefin 23

10am – Y Capel Mawr – Y Parch. W.H. Pritchard, Bae Trearddur

5.30pm – Y Fron – Y Parch. W. H. Pritchard, Bae Trearddur

Dydd Sul, Mehefin 30

10am – Y Fron – Miss Enid Davies

5.30pm – Y Fron – Miss Enid Davies

Llywydd Y Mis: – Mrs Angharad Rhys

Casglyddion/ Wrth y Drws:-

Gwirfoddolwyr o blith y gynulleidfa

Organydd/ Cyfeilydd:-

Mehefin 9 – Mrs Catrin Warren

Mehefin 16 - Mrs Dorothy Rogers

Mehefin 23 - Mrs Dorothy Rogers

Mehefin 30 - Mrs Catrin Warren

Blodau:-

Mehefin 9 - Mr a Mrs Glyn Jones

Mehefin 23 - Mrs Mair Jones

Llety'r Pregethwyr:-

Mehefin 30 -Y Fron

COLLI AELOD - Bu inni golli aelod arall yn ddiweddar gyda marwolaeth Miss Morfydd Lloyd Roberts ar Fai 1af yn 93 mlwydd oed.

Roedd hi ers peth amser wedi ymgartrefu yng Nghartref Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas, ar ôl treulio blynyddoedd lawer yn byw yn Arwel, Ffordd Rhuthun. Un a dreuliodd ei bywyd ym myd nyrsio oedd Miss Roberts gan ddod yn "sister" uchel ei pharch yn Ysbyty H.M. Stanley, Llanelwy.

Roedd Y Capel Mawr â rhan flaenllaw yn ei bywyd, a mynychodd yr oedfaon yn ffyddlon hyd i flinder a llesgedd ei llethu. Bu'i hangladd ar Fai 10fed yn Amlosgfa Llanelwy.

Cofiwn yn annwyl amdani a chydymdeimlwn â'i theulu a'i chyfeillion yn eu galar.

COFION - Anfonwn ein cofion at y rhai hynny ohonoch a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, a hyderwn y byddwch yn cael adferiad llwyr.

Hefyd anfonwn ein cyfarchion cynhesaf at y rhai hynny ohonoch sydd wedi'ch llethu gan salwch ac yn gaeth i'ch cartrefi neu sydd ar hyn o bryd mewn cartref preswyl.

LLANRHAEADR, PRION A'R GLYN

Dydd Sul, Mehefin 2ail
10.00 Pentre Oedfa'r Fro
Dydd Sul, Mehefin 9fed
9 45 Pentre Gweinidog a Cymun
Dydd Sul, Mehefin 16eg
9.45 Pentre Parch Trefor Lewis
Dydd Sul, Mehefin 23ain
9.45 Prion Mr Gwyn Evans
Dydd Sul, Mehefin 30ain
11.00 Pentre Gwasanaeth Teuluol

CYDYMDEIMLO - Gyda Gwenan, Eifion Rowlands, a theulu Tŷ Coch, wedi colli cyfnither cynta, Morfydd o'r Bala, (cynt o Gyffylliog), ag hefyd cydymdeimlwn â Eirian, wedi colli cyfnither cyntaf, Carys, o Lanuwchlyn, ein cofion atoch.

LLONGYFARCHIADAU - I Mrs Eluned Edwards am ddod yn hen-nain i Gethin Ifan, mab bach i'w wyres Elen,a Berwyn, a brawd bach i Ani, pob bendith i'r teulu bach.

CYMORTH CRISTNOGOL - Diolch i bawb am gefnogi bore'r coffi ar yr 11fed Mai, 'roedd y stondin cacennau yn werth ei weld! diolch o galon am pob rhodd tuag at y stondin a'r raffl. Diolch i Carol, Ann a Carys am ofalu am y stondin, ac i Paula a Ceri, a merched ifanc yr ysgol Sul am weini'r tê. Gwnaethom elw o £260 tuag at cymorth cristnogol ac achosion lleol.

RHAGHYSBYSIAD - Bydd ein trip eleni yn mynd i Tŷ Mawr Wybrnant, Penmachno, ar ddydd Sul 15fed Medi, ddim ar yr 8fed fel mae yn dangos ar y Suliadur, mwy o fanylion eto

Dyma lun o'r criw o blant a phobol ifanc fynychodd "Picnic yn y Parc" yn Llanrhaeadr pnawn ma. Stori Samson oedd y thema a chafodd pawb gyfle i gymryd rhan yn y chwaraeon a gemau cryfder (o dan ofal ein arweinwyr ifanc Lisa, Gwen a Rhian). Cafodd pawb hwyl a sbri yn gwneud y gwaith crefft - ail greu gwyneb/gwallt Samson yn defnyddio cress!! Gweler pawb yn y llun yn dangos eu cyhyrau!! 💪💪💪 Llawer o ddiolch i bawb am ddod, a diolch arbennig i Anti Ruth ac Anti Eirian am drefnu. Cytunwyd bod angen llawer mwy o ddyddiau ar y cyd fel hyn!

Y GLYN

Dydd Sul Mehefin 23 ain am 2 o'r gloch
Dymuniadau gorau i Ynyr Penbrynllan, sydd wedi dathlu ei benblwydd yn ddeunaw oed. Pob lwc i'r dyfodol

TREFNANT

Llywydd y Mis : BRYN ROBERTS
Dydd Sul, Mehefin 2ail
10.00 - OEDFA'R FRO - CAPEL Y PENTREF - LLANRHAEADR
Dydd Sul, Mehefin 9fed
10.00 - Mr Royce Warner 11.15 YSO
3.00 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau - Marian Roberts
Dydd Sul,Mehefin 16eg
9.45 - Gwasanaeth Cymun gan y Gweinidog 11.15 YSO
3.30 - Gweinidog
Blodau - Morfydd Evans
Dydd Sul, Mehefin 23ain
10.00 - Mrs Buddug Medi 11.15 YSO
3.00 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau - Laura Owen
Dydd Sul, Mehefin 30ain
10.00 - Parch Goronwy Prys Owen gyda phaned i ddilyn
3.00 - Parch Goronwy Prys Owen
Blodau - Mary Evans
Cynhelir Ysgol Sul y Plant yn ystod gwasanaeth y bore dan ofal Angharad Ellis ac Anwen Evans.

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU - Mae'r cyfarfodydd prynhawniau Llun wedi gorffen dros gyfnod yr Haf a bydd y tymor newydd yn ail-ddechrau ar bnawn Llun 16eg o Fedi.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL Bydd ein cyfarfod nesaf, sef Helfa Drysor ar droed a Barbeciw dan ofal Hefin ac Eleri Jones yn Neuadd y Pentref ar Ddydd Sadwrn , Mehefin 22ain. Bydd elw y noson hon ym mynd tuag at Bwyllgor Apel Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020. Croeso cynnes i bawb.

CYDYMDEIMLAD - Trist yw cofnodi marwolaeth Dorothy Jones, gwraig y diweddar Barchedig Richard Jones, cyn-weinidog yr Eglwys hon, y mis diwethaf hwn. Estynnwn ein cydymdeimlad cywir a Huw a Deiniol a'u teuluoedd yn eu hiraeth am fam a nain annwyl.

DYMUNIADAU GORAU - i'n haelodau i gyd gyda chofion arbennig at y rhai sy'n methu'r oedfaon a chymdeithas y Suliau ar hyn o bryd.

GOFAL DYDD A HELPU'N GILYDD

Mari Lloyd-Williams

Anodd credu fod wyth mlynedd wedi mynd heibio ers inni gynnal ein diwrnod cyntaf o Ofal Dydd yn y Waen! Dros y blynyddoedd rydym wedi rhoi gofal, cefnogaeth a chariad i rai o bobl mwyaf bregus ein cymunedau, rhai sy'n dioddef o salwch megis cancr, dementia, problemau symud, afiechydon niwrolegol a nifer o glefydau eraill. Mae'r mwyafrif sy'n dod atom dros 70 oed, ond rydym yn agored i bob oed. Ar hyn o bryd mae tri o dan 50 oed yn dod atom. Mae Gofal Dydd yn unigryw yng Nghymru gan ei fod yn cael ei gynnal trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, ar seiliau Cristnogol, ac yn dibynnu yn llwyr ar wirfoddolwyr.

Daw nifer wedi eu cyfeirio gan gwasanaethau cymdeithasol, nyrsus, a hefyd nifer trwy iddynt eu hunain, teulu neu ffrindiau gysylltu. Yn 2018 bu inni dderbyn 33 cais newydd am le yng Ngofal Dydd. Rydym yn derbyn pobl o ardal eang, yn cynnwys Uwchaled, Rhuthun, Dinbych a'r phentrefi cyfagos, ac yn ymestyn i rannau gwledig o Sir Conwy. Mae'r rheiny sy'n dod yn cael cludiant o ddrws i ddrws.

Rydym yn cynnal sesiynau celf, tecstiliau , gwneud cardiau, choginio, garddio, crochenwaith, canu, sgyrsiau, darllen, cyngherddau, ac hefyd ambell drip allan! Yn ogystal, mae 4-6 o blantos lleol dan 5 oed yn ymuno gyda gweithgareddau Gofal Dydd dan ofal caredig Anti Beti. Rydym yn ceisio gwella ein darpariaeth yn gyson, ac rydym wedi cychwyn sesiynau Tai Chi, sydd yn boblogaidd iawn. Mae Meinir yn garedig iawn yn dod atom i drin gwallt, a byddwn yn cynnig sesiynau Reflexology, Reiki a thrin dwylo yn y misoedd nesaf. Gobeithiwn fedru agor y sesiynau hyn I ofalwyr hefyd. Rydym yn croesawu ysgolion, a braf oedd cael Ysgol Trefnant gyda ni fel rhan o brosiect Celf yr Ŵyl Gerdd, a chael cyngerdd Nadolig wych gan Blant Ysgol Pantpastynog.

Nid oes rhaid talu am ddod i Ofal Dydd, ond mae rhan fwyaf yn cyfrannu £10 tuag at cost y diwrnod. Mae'n costio £300+ inni gynnal pob diwrnod o Ofal Dydd, ac mae'r costau yn codi yn flynyddol. Yn ein cegin hynod fach rydym yn darparu 60+ o giniawau bob wythnos, ac mae modd i rhai sydd yn dod atom fynd a chinio / pwdin adref am rodd o £1.

Mae gwirfoddolwyr Helpu'n Gilydd yn rhoi degau o oriau bob wythnos i rai sydd yn wael adref, ac yn rhoi ysbaid gwerthfawr i deuluoedd. Rydym yn gwrando, sgwrsio a chadw cwmni, ac mae'r gofal yma yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r 9 teulu sydd yn derbyn y Helpu'n Gilydd ar hyn o bryd.

Mae Gofal Dydd a Helpu'n Gilydd yn costio dros £25,000 y flwyddyn i'w cynnal, a rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd yn ein cefnogi trwy roddion a chynnal gweithgareddau I godi arian.

Os ydych yn meddwl byddai Gofal Dydd neu Helpu'n Gilydd yn gallu eich helpu neu rhoi help i deulu neu ffrindiau, cofiwch gysylltu trwy sgwennu at Gofal Dydd / Helpu'n Gilydd, Capel y Waen ,Tŷ Capel, Waen, Llanelwy, LL17 0DY, neu ebostio helpugilydd@gmail.com . Rydym hefyd yn falch o roi sgyrsiau am y gwaith

Newyddion rhifyn Gorffennaf o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Mehefin 21ain
e-bost : meinididdos13@gmail.com
neu: 01745890417